MATERION SGILIAU DYFODOL SYDD YN EFFEITHIO AR SECTORAU DIWYDIANNOL YNG NGHYMRU

Y Sector Amaethyddiaeth a Menter Ffermio

Sgiliaudyfodol Cymru

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn un mewn cyfres a gomisiynwyd gan Fforwm Ymchwil Cymru i Sgiliau'r Dyfodol. Bwriad cyffredinol y prosiect yw ymestyn ac ategu'r gwaith a ddechreuwyd gan brosiect gwreiddiol Sgiliau'r Dyfodol Cymru, oedd yn defnyddio data arolygon a rhagolygon i ragweld beth oedd yr anghenion cyffredinol yng Nghymru. Mae'r prosiect presennol yn ychwanegu astudiaethau o'r angen am sgiliau galwedigaethol yn y dyfodol o fewn sectorau allweddol yng Nghymru. Mae pob astudiaeth sector yn seiliedig ar ymchwil ddesg a chyfweliadau ansoddol gydag ymarferwyr a chyflogwyr, a bwriad pob astudiaeth yw darparu braslun o'r sector, y materion sy'n ymwneud â sgiliau a'r hyn y gellir ei wneud nawr ac yn y dyfodol er mwyn cryfhau'r sector ymhellach.

Mae busnesau a chyflogwyr ym mhob un o'r sectorau a astudiwyd wedi mwynhau llwyddiant aruthrol; dyna pam y daeth y sectorau hyn yn bwysig i Gymru. Ni ddylai'r sylw a roddwn i sgiliau cyfredol daflu cwmwl dros y cyraeddiadau hyn na phenderfyniad pawb dan sylw i gwrdd â'r her sydd o'u blaenau.

Proffil o'r Sector

Mae'r sector amaethyddiaeth a menter ffermydd yn hanfodol i gymunedau gwledig ledled Cymru os ydynt am oroesi'n economaidd ac yn gymdeithasol. O'i gymharu â gweddill y DU, mae'r sector yn cael ei gynrychioli'n dda yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o waith ffermio yn ymwneud â da byw, boed hynny ar gyfer cig neu ar gyfer llaeth, tra bod gweithgarwch arallgyfeirio'n cwmpasu nifer o weithgareddau sy'n amrywio o brosesu bwyd i dwristiaeth.

Amcangyfrifir bod dros 32,000 o fusnesau yng Nghymru sy'n ffermydd neu'n seiliedig ar y tir; er bod y mwyafrif yn dal i fod yn fach, a bod llawer yn cael eu rhedeg gan berchenogion rhan amser, mae'r mentrau'n tueddu i dyfu'n fwy ar gyfartaledd. Credir bod dros 42,000 o bobl yn gweithio yn y sector, naill ai fel perchenogion neu fel gweithwyr. Yn aml, mae rôl merched yn y gweithlu yn gallu bod yn anffurfiol ac mae'n bosibl na chaiff ei gydnabod yn llawn bob amser yn y ffigyrau a gyhoeddir. Mae gostyngiad yng nghyfartaledd incwm bellach yn nodweddiadol o'r sector.

Yn draddodiadol, agweddau ceidwadol a fu'n noddweddiadol o'r sector, ond **erbyn hyn mae'r sector yn fwy cystadleuol ac yn newid yn gyflym**. Fodd bynnag, mae diffyg cymwysterau a hyfforddiant yn awgrymu y bydd heriau a rhwystrau pellach yn cael eu hwynebu wrth geisio datblygu'r busnes.

Mae ffermydd wrth reswm yn fentrau bychain **ac maent yn wynebu problemau sy'n gyffredin ymhlith llawer o fusnesau bychain**, megis cynllunio a llunio strategaethau, cael gwybodaeth a chyngor, a chyfleoedd i ddysgu sgiliau rheoli cyllid a busnes. Mae'r cyfrifoldeb am wahanol agweddau o reoli'r busnes yn cael ei rannu gan deulu'r fferm.

Yn draddodiadol, **cyfyngwyd y galw am hyfforddiant i gyrsiau byrion er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth** ee profion medrusrwydd, a chyrsiau AU fel sylfaen ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, mae diwylliant dysgu am oes yn darged sy'n bell o gyrraedd y sector ar hyn o bryd. Mae angen i gyrsiau, yn enwedig cyrsiau AU, fod yn ddigon hyblyg i gynnwys yr amrywiaeth eang o sgiliau y mae eu hangen ar ffermydd bychain hy sgiliau rheoli busnes.

Dyma rai materion allweddol sy'n ymwneud â datblygu'r sector:

- **arallgyfeirio** - rhywbeth y mae'n rhaid iddo barhau i dyfu. Mae'r gweithgarwch hwn yn dechrau cysylltu mentrau fferm gyda sectorau ehangach megis twristiaeth, hamdden a phrosesu bwyd. Mae hyn yn golygu set ehangach o anghenion penodol o safbwynt sgiliau, megis gwasanaeth cwsmeriaid a marchnata;
- **datblygu'r gadwyn fwyd** - er mwyn cyflawni hyn, mae gofyn i ffermydd fod yn fwy ymwybodol o ddisgwyliadau proseswyr/defnyddwyr. Mae potensial yma ar gyfer cynnyrch gwerth ychwanegol ac arbenigol;
- **cynhyrchiant organig/ymwybyddiaeth amgylcheddol** - meysydd sy'n tyfu ac yn gysylltiedig â diddordeb y cyhoedd/beth sy'n well gan ddefnyddwyr - mae cyfleoedd ar gael yma.

Materion sy'n ymwneud â Sgiliau

Mae'r sector yn eang iawn, gan gwmpasu nifer fawr o sgiliau gwahanol. Ond dyma'r blaenoriaethau cyffredinol o safbwynt sgiliau:

- mae pwysigrwydd **sgiliau rheoli a busnes** yn cynyddu - yn enwedig mewn perthynas â rhedeg busnes bychan;
- mae gan ddatblygiadau **technoleg gwybodaeth a chyfathrebu** y potensial i oresgyn rhwystrau i'r byd dysgu ee pellter a mynediad, er bod angen gwella'r sgiliau hyn yn fawr;
- **marchnata a deall anghenion cwsmeriaid** fydd y meysydd pwysicaf os yw'r busnes am lwyddo yn y tymor canolig, lle mae elw o'r brif farchnad graidd dan fygythiad o hyd. Bydd y rheini sy'n fwy parod i fentro ym myd busnes yn fwy tebygol o lwyddo;
- bydd sgiliau penodol sy'n gysylltiedig â **thechnoleg newydd a dulliau organig** yn dod yn bwysicach wrth geisio bod yn gystadleuol a chynhyrchu mwy.

Gweithredu ynghylch Sgiliau

Nid yw'r sector a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn wedi cael ei ystyried yn ei gyfanrwydd gan unrhyw gorff unigol. Felly, nid yw'r cyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth resymegol ar gyfer sgiliau'r dyfodol yn disgyn ar ysgwyddau un partner penodol. Her sylweddol yw penderfynu a yw'r fath ddiffiniad o'r sector y gorau posibl at ddibenion strategaeth ac os felly, sut y gellir cynllunio'n effeithiol ar gyfer sgiliau.

Gallai datblygu **strategaeth sgiliau ar gyfer y sector**, fod y cam cyntaf wrth ymdrin â'r amrywiaeth amlwg o becynnau cefnogaeth sydd ar gael trwy Gymru. Gallai rhaglen gefnogaeth gyson a hyblyg, yn seiliedig ar yr arferion gorau, ddarparu mwy o werth ychwanegol na'r trefniadau presennol. Byddai angen i raglen o'r fath fod yn gyfannol, gan gwmpasu meysydd rheoli busnes a sgiliau technoleg gwybodaeth, ynghyd â gweithgareddau arallgyfeirio neu feysydd sgiliau sy'n ymwneud yn benodol ag amaethyddiaeth.

Yn olaf, mae angen **parhau i ddatblygu dulliau mwy hyblyg fyth o ddarparu hyfforddiant a gwella sgiliau**. Bydd hyn yn sail i ddatblygiad cyffredinol y sector.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn:

Rhif Arg	Argymhellion	Amserlen	Prif Bartneriaid
1	Mae angen arweiniad strategol er mwyn datblygu sgiliau'r sector	O 2000	CETW
2	Arolygu pob cynllun datblygu fferm yng Nghymru ar gyfer arferion gorau a datblygu rhaglen gefnogaeth gyson, hyblyg ar draws Cymru	O 2000	Adran Amaeth y Cynulliad/ CETW/phob un arall
3	Gwella sgiliau rheoli a sgiliau rheoli busnes	2001	CETW/Lantra/AU/AB/ darparwyr/phob un arall
4	Datblygu dull mwy hyblyg o darparu hyfforddiant hanfodol mewn amaethyddiaeth, er mwyn cefnogi datblygiad technegol y sector	2001/02	CETW/Corff Hyfforddi Cenedlaethol/AU/AB/ darparwyr
5	Dylai cyngor ynglŷn â gyrfaoedd ganolbwyntio mwy ar natur y gwaith yn y sector ee rheoli busnes, amlswydd a hunan-gyflogaeth	2001	Gyrfaoedd/ysgolion/AB
6	Ymchwil pellach i ddatblygu dealltwriaeth mewn meysydd megis: • effaith debygol ffermwyr sy'n heneiddio; • arallgyfeirio/gweithgareddau lluosog	2001/02	AU/CETW/Uned Sgiliau

Nodiadau

Cydnabyddiaeth

Huw Brodie – Agriculture Department, National Assembly for Wales
Sandra Loton-Jones – Lantra
Kevin Thomas – WDA
Chris Lea – Agriculture Department, National Assembly for Wales
Terri Thomas – Agriculture Department, National Assembly for Wales
Stephen Bradley – SPARC
Annette Jones – Mid Wales TEC
Gill Lloyd – Labour Direct
Rob Bottomley – Agriculture Statistics, National Assembly for Wales
Mick Barlow – Coleg Menai
Mike Plumb – Blaenffynonau Farm, Narberth
Bob Kennard – Graig Farm Organics, Llandrindod Wells
Mark Lazzeri – FUW
Mary James – National Farmers Union
Lowri Jones – Wales Young Farmers Clubs
David Owen – Farmers First

Safbwyntiau York Consulting Cyfyngedig yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn.
Philip Wilson, August 2000.